



## Aelodaeth QAA ar gyfer Darparwyr Addysg Uwch y DU yng Nghymru

### Cytundeb Aelodaeth

#### Ein hymrwymiad i chi

Mae Aelodaeth QAA yn cadarnhau ein hymrwymiad parhaus i weithio gyda chi i ddarparu ystod o wasanaethau ymatebol wedi'u teilwra sy'n diwallu anghenion penodol addysg uwch yng Nghymru. Cyflawnir ein holl waith o dan y Cytundeb Fframwaith ar gyfer Sicrhau Ansawdd Allanol (Cytundeb Fframwaith) sydd gennym gyda sefydliad Prifysgolion Cymru, ac mae'n cyd-fynd â gofynion Fframwaith Asesu Ansawdd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Mae aelodaeth yn adlewyrchu'n llawn natur y gwaith partneriaeth cydweithredol sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymru. Mae aelodau'n llywio'r gwaith a wnawn – trwy sefydliad Prifysgolion Cymru, Colegau Cymru, grwpiau sector fel Rhwydwaith Ansawdd Cymru, a thrafodaethau rheolaidd gyda CCAUC a rhanddeiliaid eraill. Bob blwyddyn byddwn yn ceisio cynllunio gweithgareddau i ddiwallu'r blaenoriaethau penodol yr ydych chi, fel aelodau, yn eu nodi sydd bwysicaf i chi.

Fel aelodau o QAA, bydd holl staff a myfyrwyr ym mhob darparydd addysg uwch yng Nghymru sy'n aelod yn parhau i gael mynediad at ein holl adnoddau. Pan fyddwch yn cofrestru fel defnyddiwr gwasanaethau aelodaeth QAA, byddwn yn cysylltu â chi trwy e-bost i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am newyddion QAA a diweddariadau ar gyfer yr aelodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau. Mae gennym hawl gyfreithlon i wneud hynny, fel yr amlinellir yn [Hysbysiad Preifatrwydd QAA](#). Os nad ydych am dderbyn y cyfathrebiadau hyn, gallwch hysbysu ein hadran aelodaeth: [membership@qaa.ac.uk](mailto:membership@qaa.ac.uk). Gallwch hefyd ddefnyddio'r botwm dad-danysgrifio i roi'r gorau i dderbyn unrhyw gyfathrebiadau e-bost.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar yr hyn y gall aelodau yng Nghymru gael mynediad iddo - mae'n cynnwys yr holl adnoddau a gwmpesir gan Aelodaeth QAA a phecyn *International Insights*.

#### Ein haelodau yng Nghymru

Mae pawb sydd wedi llofnodi'r Cytundeb Fframwaith yn aelodau, ynghyd â'r Brifysgol Agored yng Nghymru a darparwyr na reoleiddir sy'n darparu addysg uwch, fel aelodau gwirfoddol.

#### Ffioedd aelodaeth

Mae cynnydd o 3% yn sgil chwyddiant ar gyfer 2022-23. Mae'r flwyddyn aelodaeth yn rhedeg o'r 1<sup>af</sup> Awst tan 31<sup>ain</sup> Gorffennaf, a chaiff anfonebau eu danfon allan ym mis Gorffennaf. Gall mynediad i adnoddau QAA gael ei gyfyngu os na chaiff anfonebau eu talu o fewn 30 diwrnod.

Mae aelodaeth yng Nghymru'n parhau i gynnwys nifer penodedig o leoedd ar gyfer staff a myfyrwyr mewn digwyddiadau a gynlluniwyd er mwyn aelodau yng Nghymru. Mae aelodaeth ar gyfer y DU gyfan yn cynnwys lleoedd am ddim yng Nghynhadledd Flynyddol QAA, ynghyd ag amrywiaeth o adnoddau DU gyfan y gellir eu cyrchu trwy wefan Adnoddau'r Aelodaeth ar-

lein. Mae gweminarau ychwanegol sy'n mynd i'r afael â materion ledled y DU, yn ogystal â chyfleoedd i gydweithio ledled y DU, hefyd wedi'u cynnwys.

Mae [telerau ac amodau](#) llawn yn ymwneud â darparu gwasanaethau aelodaeth i'w gweld ar ein gwefan.

## **Adnoddau sydd ar gael yn gyhoeddus ac adnoddau aelodaeth**

Bydd QAA yn parhau i gyhoeddi'r holl ddeunyddiau rheoleiddio ar wefan QAA yn unol â'r trefniadau rheoleiddio perthnasol ym mhob gwlad. Mae hyn yn cynnwys y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol a Chôd Ansawdd y DU. Bydd fersiynau cyfredol o gyfeirbwyntiau eraill (Datganiadau Nodweddion, Datganiadau Meincnod Pwnc, ynghyd â Chyngor ac Arweiniad ar gyfer y Côt Ansawdd) yn parhau i gael eu cyhoeddi ar wefan QAA, a byddant ar gael i'r cyhoedd.<sup>1</sup>

Mae'n bosibl y bydd fersiynau yn y dyfodol a diweddariadau o'r cyfeirbwyntiau a ddatblygwyd gan QAA ar y cyd â'r gymuned sy'n aelodau ar gael i aelodau'n unig. Bydd unrhyw gyfyngiadau'n cael eu penderfynu gyda'n haelodau.

Bydd ystod eang o gyhoeddiadau eraill QAA yn parhau i gynnwys dim ond penawdau neu grynodedbau ar ein gwefannau cyhoeddus, gyda'r wybodaeth lawn ar gael yn arbennig i'n haelodau, y gellir ei chyrchu trwy wefan Adnoddau'r Aelodaeth.

## **Mae aelodaeth yn cynnwys ein partneriaid**

Mae cyllidwyr a rhanddeiliaid allweddol yn bartneriaid aelodaeth gan gynnwys CCAUC, Prifysgolion Cymru, Colegau Cymru, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, UCM Cymru, Estyn ac *Advance HE* yng Nghymru, ynghyd â'r Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyhoeddwyd - Mai 2022

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2022  
Rhifau elusen cofrestredig 1062746 a SC037786.

[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)